

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd  
Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg  
gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
2016-17

Gorffennaf 2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebo:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Diben.....	5
2.	Trosolwg .....	5
3.	Negeseuon allweddol.....	5
4.	Canfyddiadau'r arolygiadau .....	6
5.	Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig .....	10
6.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith .....	12
7.	Llywodraethu.....	14
8.	Ymgysylltiad.....	14
9.	Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig .....	16

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Diben

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn fel crynodeb o weithgareddau AGIC rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

# 2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 39 o arolygiadau neu ymweliadau mewn lleoliadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gan gynnwys:

- 2 arolygiad o ysbytai
- 4 arolygiad o feddygon teulu
- 9 arolygiad o bractisau deintyddol
- 1 arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
- 12 arolygiad anableddau dysgu
- 1 ymweliad Deddf Iechyd Meddwl
- 1 arolygiad o uned iechyd meddwl (arolygiad dilynol oedd hwn)
- 9 archwiliad Marwolaeth yn y Ddalfa.

# 3. Negeseuon allweddol

Mae'r arolygiadau a gynhaliwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn dangos yn gyffredinol bod y gofal a ddarperir i gleifion yn garedig, yn dosturiol ac yn cael ei roi gan staff ymroddgar a brwdfrydig.

Fodd bynnag, amlygwyd y materion canlynol gan weithgareddau AGIC yn ystod 2016-17 – materion y bydd y bwrdd am fyfrio yn eu cylch:

- Amlygwyd materion yn ymwneud â chynnal a chadw a gwella amgylcheddau mewn ystod o leoliadau gan gynnwys ysbytai ac unedau preswyl anabledd dysgu
- Soniwyd bod angen gwella ansawdd dogfennaeth mewn arolygiadau o ysbytai, iechyd meddwl, practisau deintyddol ac anabledd dysgu

- Mae tystiolaeth yn dangos nad yw'r hyn a ddysgir yn sgil arolygiadau yn cael ei rannu mewn ffordd effeithiol
- Bu'n rhaid i AGIC ddilyn y broses Sicrwydd ar Unwaith yn sgil pryderon a amlygwyd mewn bron i chwarter o'r arolygiadau.

## 4. Canfyddiadau'r arolygiadau

Yn ystod 2016-17, gwnaeth AGIC amrywiaeth o waith o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg trwy ein gwaith eleni. Gweler crynodeb ohonynt isod:

### Arolygiadau o ysbytai

Dyma ganfyddiadau allweddol yr arolygiadau o ysbytai a gynhaliwyd yn ystod 2016-17:

#### Ysbytai Maesteg a Gorseinon

Arolygodd AGIC Ward y Gorllewin yn Ysbyty Gorseinon a Ward Llynfi yn Ysbyty Maesteg ym mis Medi 2016. Roedd yr arolygiad yn gyfle i AGIC i ddilyn cynnydd y bwrdd iechyd wrth fynd i'r afael â'r gwelliannau oedd eu hangen yn sgil ein harolygiad diwethaf o Ward y Gorllewin yn Ysbyty Gorseinon ym mis Medi 2014. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal arolygiad yn Ward Llynfi, Ysbyty Maesteg ac felly roedd yn arolygiad ehangach.

Yn gyffredinol, roedd ein canfyddiadau'n gadarnhaol. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r driniaeth a gawsant a gwelsom staff yn trin cleifion gyda charedigrwydd a pharch.

Daeth i'r amlwg fodd bynnag bod angen gwelliant di-oed yn y ddau ysbyty o ran defnydd cywir o'r bandiau adnabod cleifion a wisgir ar yr arddwrn, a hynny er mwyn hybu diogelwch a lles y cleifion. Darparodd y bwrdd iechyd gynllun gwella di-oed digonol o fewn yr amser y cytunwyd arno.

Canfuom fod angen gwelliant o ran yr amgylchedd yn Ysbyty Gorseinon yn ogystal â'r meysydd canlynol yn y ddwy ward y gwnaethom eu harolygu: rheoli meddyginiaeth, cofnodion (yn enwedig cynlluniau gofal ysgrifenedig a siartiau monitro), rheolaeth gwaith papur Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac arfarniadau staff.

#### Tywysoges Cymru

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Ward 10 ac Adran Argyfwng Ysbyty Tywysoges Cymru ym mis Ionawr 2017. Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddilyn cynnydd y bwrdd iechyd wrth fynd i'r afael â'r gwelliannau oedd eu

hangen yn sgil ein harolygiad diwethaf yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym mis Hydref 2014 a Chwefror 2015.

Dewisom arolygu Ward 10 er mwyn cadarnhau bod y camau gweithredu er gwella a ddisgrifiwyd gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'n harolygiad diwethaf wedi eu rhoi ar waith ar draws maes arbenigol trawma ac orthopedeg. Gwelsom mai ychydig oedd y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r camau tuag at wella ar Ward 10.

Yn yr Adran Argyfwng, roedd yn braf gweld bod camau gweithredu tuag at wella wedi eu gweithredu a'u cynnal er mwyn mynd i'r afael a llawer o'r gwelliant yr oedd ei angen yn ystod ein harolygiad diwethaf. Fodd bynnag, roedd yna rai meysydd lle nad oedd y gwaith wedi symud yn ei flaen ac roedd angen gwelliant o hyd.

Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r driniaeth a gawsant a bod trefniadau ar gael iddynt ddarparu adborth ynglŷn â'u profiadau. Gwelsom staff yn dilyn gweithdrefnau croes-heintio ac roedd hyn yn arbennig o amlwg ar Ward 10.

Gwelsom fod angen gwelliant o ran hybu preifatrwydd ac urddas cleifion, yr amser a gymerir i ymateb i geisiadau gan gleifion am gymorth ar Ward 10 a llif cleifion trwy'r Adran Argyfwng. Ar Ward 10, roedd angen gwella rhai agweddau o'r amgylchedd, rheoli meddyginiaethau a chwblhau cofnodion monitro. Canfuom hefyd fod angen adolygiad o ddiogelwch yn yr Adran Argyfwng.

### **Iechyd meddwl**

Ymweliad dilynol oedd ein harolygiad o Ysbyty Cefn Coed ym mis Mai 2016, oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion a amlygwyd gennym mewn arolygiad blaenorol ym mis Tachwedd 2014. Daethom i'r casgliad fod gwelliannau sylweddol wedi digwydd, gan gynnwys digomisiynu wardiau yn y prif adeilad a gwelliannau o ran hyfforddiant staff. Gwelsom hefyd ryngweithiadau cadarnhaol rhwng staff a chleifion trwy gydol ein hymweliad. Fodd bynnag, roedd gennym bryderon ynghylch yr amgylchedd a dogfennau gofal ac o ganlyniad, anfonwyd llythyr at y bwrdd iechyd yn ceisio sicrwydd ar unwaith.

### **Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)**

Er na wnaeth tîm arolygu AGIC ganfod unrhyw risg ar fin digwydd o ran niwed i gleifion sy'n derbyn gwasanaethau yn yr adran feddygaeth niwclear yn Ysbyty Singleton, gwnaeth ddarganfod chwech o dramgwyddau rheoleiddiol mewn meysydd megis gweithdrefnau ysgrifenedig, cofnodion hyfforddi a mynediad at ganllawiau. Roedd yn destun siom canfod bod rhai gwelliannau a amlygwyd yn ystod arolygiad blaenorol AGIC yn 2009 heb eu rhoi ar waith o hyd. O

ganlyniad, bu'n rhaid i AGIC ysgrifennu llythyr diffyg cydymffurfio at y bwrdd iechyd gan fynnu bod materion sydd yn parhau i fod angen sylw yn cael y sylw hwennw ymhen tri mis.

## Practis Cyffredinol

Bu pedwar arolygiad o feddygon teulu yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn 2016-17. Arweiniwyd yr arolygiadau i gyd gan arolygwyr AGIC gyda chymorth gan Gyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg.

Roedd ein canfyddiadau yn gadarnhaol iawn, a'r meddygfeydd yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion a oedd yn hapus â'r gofal a gawsant. Canfuom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda a gwelsom safon dda o gadw cofnodion gan feddygon teulu a nyrsys ym mhob practis. Canfuom hefyd enghreifftiau o waith arloesol i gynyddu'r nifer o gleifion sy'n derbyn brechiadau yn un practis; ac mewn cadw cofnodion mewn practis arall.

Amlygwyd meysydd lle mae angen gwella o fewn hyfforddiant ac arfarnu staff; yr angen i ddwy o'r meddygfeydd gynnal arolygon cleifion rheolaidd; a'r angen i ddwy o'r meddygfeydd adolygu eu gweithdrefnau pryderon/cwynion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â threfniadau Gweithio i Wella GIG Cymru.

## Deintyddol

Gwnaethom gwblhau naw o arolygiadau o bractisau deintyddol sy'n darparu triniaeth o dan y GIG.

Ym mhob practis, dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir. Canfuom fod yn y mwyafrif o bractisau ddigon o offer a'u bod yn lân ac yn daclus. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddiogel; a dangosodd staff broses drylwyr ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Fodd bynnag, o'r naw arolygiad, roedd yna dri lle bu'n rhaid ceisio sicrwydd ar unwaith gan i ni amlygu pryderon ynglŷn â diogelwch cleifion. Y themâu a amlygwyd oedd:

- Argaeledd a gwiriadau offer argyfwng i'w ddefnyddio pe bai claf yn dioddef o lewygfa
- Perfformio a chofnodi profion a gweithdrefnau ar ddadheintio ac offer pelydr-X i sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn
- Diogelwch tân.

Themâu eraill a amlygwyd yn ystod yr arolygiadau deintyddol oedd:



- Roedd angen gwella asesiadau risg, polisiâu neu weithdrefnau mewn saith o'r deg arolygiad
- Nodwyd bod angen rhai gwelliannau i'r broses ddadheintio mewn chwe arolygiad
- Roedd cadw cofnodion yn broblem a nodwyd mewn pum practis
- Roedd angen rhoi sylw i brosesau sicrhau ansawdd mewn pum practis
- Roedd angen hyfforddiant pellach ar staff mewn pedwar practis
- Nodwyd mewn pedwar o'r arolygiadau bod angen gwelliannau i'r amgylchedd.

### Anableddau dysgu

Yn ystod 2016-17, cynhaliodd AGIC 12 o arolygiadau o sefydliadau preswyl Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, gan gynnwys tair uned asesu a thriniaeth. Bu'n rhaid ceisio sicrwydd ar unwaith yn sgil tri o'r arolygiadau hyn ynghylch asesiadau risg/dogfennau a materion amgylcheddol.

Canfuom fod cleifion yn cael cymorth i gadw'n iach ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddent yn eu mwynhau yn yr unedau a hefyd o fewn y gymdeithas leol. Fodd bynnag, roedd yna waith trwsio a chynnal a chadw na chafodd ei gwblhau mewn modd amserol a chanfuom fod angen gwella'r amgylchedd mewn nifer o'r unedau preswyl. Canfuom fod angen gwelliannau i sicrhau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol, er mwyn arwain a chefnogi staff. Yn benodol, roedd hyfforddiant staff yn achos pryder mewn nifer o'r sefydliadau ac mewn dau leoliad, roedd lefelau staff yn annigonol.

Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hefyd yn darparu gwasanaethau iechyd anableddau dysgu mewn ardaloedd daearyddol sydd dan ofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Yn ystod 2016-17 gwnaethom gynnal arolygiad o dîm Anabledd Dysgu Iechyd Cymunedol Gorllewin Caerdydd. Canfuom dîm o staff oedd yn frwdfrydig ac ymroddgar wrth ddarparu amrediad o asesiadau ac ymyriadau amlddisgyblaethol. Er i ni weld bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn dechrau gweithio'n agosach gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, canfuom fod angen gwelliant cyffredinol o ran llywodraethu'r ddarpariaeth o wasanaethau anableddau dysgu er mwyn cael eglurder ar anghenion y boblogaeth, manyleb o'r gwasanaeth yn ogystal â'r systemau arolygol.

## 5. Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig

Ni wnaethom gynnal unrhyw adolygiadau arbennig nac ymchwiliadau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ystod 2016-17. Cwblhaodd AGIC naw adolygiad clinigol o achosion o farwolaeth yn y ddalfa i gefnogi gwaith Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth.

### Adolygiadau clinigol marwolaeth yn y ddalfa

Yn ystod 2016-17, cyfrannodd AGIC at dri adolygiad o farwolaeth yn y ddalfa yn ymwneud â CEM Abertawe.

Gwnaeth AGIC argymhellion am welliannau yn ymwneud ag asesu a thrin camddefnydd o sylweddau a'r broses asesu iechyd meddwl. Gwnaethom argymhell hefyd y dylid cynnal adolygiad o'r broses o ddefnyddio rhybuddion i sicrhau bod yr offer argyfwng angenrheidiol ar gael mewn modd amserol a, lle bo gofyn am hynny, bod y gwasanaethau brys yn cael eu galw ar y cyfle cyntaf.

Ar adeg un adolygiad, roedd dwy swydd nyrs iechyd meddwl yn wag yn CEM Abertawe, ac roedd un ohonynt wedi bod yn wag ers 12 mis. Dywedodd nyrsys wrth AGIC nad oeddent wedi derbyn goruchwyliaeth glinigol ers peth amser.

Cyfrannodd AGIC hefyd at chwe arolygiad o farwolaeth yn y ddalfa yn ymwneud â CEM Parc.

Gwnaethom argymhellion yn ymwneud â rhannu cofnodion, gwella'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau iechyd rhywiol a monitro apwyntiadau ysbyty a gollir.

Mewn un achos, bu oedi hir iawn rhwng dyddiad atgyfeiriad a dyddiad llawdriniaeth a gafodd ei gohirio ar ddau achlysur yn ystod yr amser hwnnw. Amlygodd yr adolygiad fod diffyg yn y cyfathrebu rhwng Ysbyty Tywysoges Cymru a staff gofal iechyd y carchar. Mynegwyd pryderon difrifol mewn achos arall lle na weithredwyd mewn modd amserol ar ganlyniadau profion unigolyn. Golygodd hyn na chafodd driniaeth fel y gallai ei disgwyl yn y gymuned.

## Adroddiad Thematig Gwasanaethau Anabledd Dysgu 2015-16

Yn ystod 2016-17 cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig<sup>1</sup> o wasanaethau iechyd y GIG ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Bwriad yr adolygiad oedd amlygu cryfderau cyffredin a meysydd lle mae angen gwella, a chynnig argymhellion ar gyfer byrddau iechyd. Mae'r adolygiad hefyd yn amlygu arferion da, er mwyn cefnogi gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru. Mae canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru isod:

- Roedd ein canfyddiadau yn gadarnhaol gan fwyaf ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan dimau anabledd dysgu iechyd cymunedol
- Canfuom fod angen gwelliannau sylweddol mewn nifer o feysydd mewn gwasanaethau preswyl GIG ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
- Canfuom fod pobl fel arfer yn derbyn gofal unigol da gan staff sy'n gwneud eu gorau i ofalu am eu cleifion
- Anaml yr oedd gofal i gleifion yn cael ei danategu gan drefniadau rheoli a staffio da.

Mae angen i'r holl fyrddau iechyd ystyried pwrpas lleoliadau preswyl y GIG ar gyfer anableddau dysgu a ph'un a yw'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn y sefydliadau hyn yn ddim ond gofal iechyd. Os nad yw, dylai byrddau iechyd ystyried p'un a yw model gofal cymdeithasol yn fwy priodol.

## Adroddiad Thematig Gwasanaethau Offthalmoleg 2015-16

Yn ystod 2016-17, cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig<sup>2</sup> o wasanaethau Offthalmoleg. Bwriad yr adolygiad oedd edrych ar draws ffiniau gofal sylfaenol a gofal eilaidd er mwyn edrych ar sut roedd darparwyr yn darparu a datblygu gwasanaethau. Roedd yn adolygiad a oedd yn canolbwyntio ar ddirywiad macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, oherwydd y perygl i gleifion sy'n

---

<sup>1</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/161208ldreviewcy.pdf>

<sup>2</sup> <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/170131opreviewcy.pdf>

gysylltiedig ag unrhyw oedi cyn cael triniaeth. Dyma ganfyddiadau allweddol ein hadolygiad:

- Nid oes gan y gwasanaethau gofal llygaid ar draws Cymru ddigon o gapasiti mewn gofal eilaidd i ateb y galw presennol
- Gall absenoldeb gweithwyr allweddol achosi i rannau o'r llwybr gofal beidio â gweithio'n effeithiol, gan gynyddu'r perygl i gleifion ddioddef niwed y mae modd ei osgoi
- Mae angen gwell gwybodaeth ar fyrddau iechyd ynglŷn â'r bwch sydd rhwng capasiti a galw er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth o ran cynllunio'r gweithlu
- Clywsom fod ymdrechion i wella gweithio ar y cyd yn cael eu dal yn ôl mewn rhai ardaloedd o fewn y byrddau iechyd o ganlyniad i berthynas waith wael rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd
- Gwelsom rai mentrau newydd o ran darparu gwasanaethau dirywiad macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, gan gynnwys defnyddio chwistrellwyr anfeddygol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd o ran datblygu a darparu'r mentrau hyn yn gyson ar draws y byrddau iechyd.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddeall bod angen datblygu'r gwasanaethau ymhellach er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael er mwyn cryfhau seilwaith a chynnaladwyedd gwasanaethau gofal llygaid.

## 6. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

### Camau dilynol

Yn dilyn pob un o'n harolygiadau, gwnaethom gynhyrchu adroddiad o'n canfyddiadau. Mewn meysydd lle'r amlygom fod angen gwelliannau, gofynnem hefyd i'r bwrdd iechyd neu bractis ddarparu cynllun gwella yn dweud sut yr oedd yn mynd i weithredu'r gwelliannau hynny. Ar gyfer rhai arolygiadau, byddwn yn cynnal arolygiad dilynol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau gwella wedi eu rhoi ar waith.

Roedd gweithredu dilynol yn rhan o'r arolygiadau canlynol:

- Ysbyty Gorseinon – Roedd ein harolygiad o Ward y Gorllewin ym mis Medi 2016 yn cynnwys edrych eto ar faterion a amlygwyd mewn arolygiad yn 2014. Canfuom fod yr ysbyty wedi gwneud gwelliannau mewn nifer o feysydd, ond y gellid gwneud gwelliannau pellach o ran diogelu gwybodaeth cleifion.

- Tywysoges Cymru – Pwrpas ein harolygiad ar Ward 10 ym mis Ionawr 2017 oedd edrych eto ar faterion a amlygwyd mewn arolygiad ar Ward 9 yn ystod mis Hydref 2014. Wardiau trawma ac orthopedeg yw'r ddwy ward ac mae'r naill wrth ochr y llall. Canfuom mai ychydig o gynnydd a wnaed o ran rhoi gwelliannau ar waith ar Ward 10 ac ni chafodd yr hyn a ddysgwyd ar ôl ein harolygiad blaenorol ei rannu'n effeithiol.

Roedd ein harolygiad o'r Adran Argyfwng yn edrych eto ar faterion a amlygwyd yn ystod arolygiad ym mis Chwefror 2015. Canfuom, yn gyffredinol, fod yr adran wedi gwneud gwelliannau.

- Ysbyty Cefn Coed – Roedd ein harolygiad ym mis Mai 2016 yn canolbwyntio ar faterion a amlygwyd ym mis Tachwedd 2014. Canfuom fod yr ysbyty wedi gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygwyd yn ein hadroddiad blaenorol.

### Sicrwydd ar unwaith

Pan ganfuwyd perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau ar unwaith, cyflwynwyd llythyrau i'r bwrdd iechyd a'r practisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2016-17 cyflwynwyd wyth llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd. Fel yr amlygwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, roedd y materion hyn yn ymwneud â:

- Bandiau garddwrn adnabod cleifion (Maesteg a Gorseion)
- Materion yn ymwneud â'r amgylchedd a dogfennau gofal (Ysbyty Cefn Coed)
- Materion yn ymwneud â'r amgylchedd ac asesiadau risg (Unedau preswyl anabledd dysgu)
- Bu'n rhaid ysgrifennu llythyr yn gofyn am sicrwydd ar unwaith o ganlyniad i dri allan o'r naw o arolygiadau o bractisau deintyddol.

Gwnaethom hefyd ysgrifennu un llythyr diffyg cydymffurfio am dorri Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn Ysbyty Singleton.

## 7. Llywodraethu

Yn ystod 2016-17, cafodd y bwrdd iechyd nifer o gyfleoedd i ddangos ei fod yn sefydliad sy'n dysgu. Wrth i faterion godi, ymatebodd y bwrdd iechyd yn gadarn yn gyffredinol gyda chynlluniau gwella yn cael eu cwblhau a'u darparu mewn da bryd.

Gwelsom adroddiadau arolygu yn cael eu trafod yn fyr gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a hefyd gan y Grŵp Sicrwydd a Dysgu. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o arolygiadau yn dangos nad yw'r bwrdd iechyd hyd yma wedi sefydlu'n effeithiol ddulliau llwyddiannus ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgir ac arferion da. Er enghraifft, amlygwyd yr un materion yn yr arolygiad dilynol o Ward 10 Ysbyty Tywysoges Cymru ag a amlygwyd mewn arolygiad blaenorol yn Ward 9.

Amlygodd AGIC faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith mewn traean o'r arolygiadau o bractisau deintyddol, sydd efallai'n dangos y gellid gwneud gwelliannau i sut mae'r bwrdd iechyd yn llywodraethu ac arolygu practisau deintyddol.

## 8. Ymgysylltiad

Gwnaeth staff ar bob lefel gydweithio'n llawn â'r timau arolygu fu'n ymweld â gwasanaethau a weithredir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a gwnaethant ddangos parodrwydd i ddysgu yn sgil yr arolygiad.

Yn gyffredinol, cafodd gohebiaeth rhwng AGIC a'r bwrdd iechyd sylw mewn modd amserol a boddhaol.

Yn ystod 2016-17 mynychodd Rheolwr Perthnasau AGIC nifer o gyfarfodydd gyda'r bwrdd iechyd, gan gynnwys:

- Mynychu Cyfarfod y Bwrdd i gyflwyno adroddiad AGIC ar y Bwrdd Iechyd 2015-16
- Arsylwi ar gyfarfodydd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
- Arsylwi ar gyfarfodydd Grŵp Sicrwydd a Dysgu.

Cyfarfu Prif Weithredwr AGIC â Phrif Weithredwr a Chadeirydd y bwrdd iechyd yn ystod mis Mai 2016. Cyfarfu Rheolwr Perthnasau AGIC hefyd yn rheolaidd â Chyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad y Claf er mwyn cyfnewid gwybodaeth a, lle bo angen, trafod unrhyw sicrwydd pellach oedd yn ofynnol yn dilyn arolygiad neu faterion a godwyd gyda'r bwrdd iechyd.

Ym mis Hydref 2016, rhoddwyd cyflwyniad gan AGIC ar 'Beth i'w Ddisgwyl mewn Arolygiad o Ysbyty' mewn 'Gweithdy ar Ddysgu o Ganlyniad i Arolygiadau Allanol' a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Cyflwynodd AGIC wybodaeth hefyd am ei rhaglen arolygu lawfeddygol newydd o flaen y Grŵp Sicrwydd a Dysgu ym mis Mawrth 2017.

## 9. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig

### Arolygiadau o Ysbytai

1. <a href="#">Ysbytai Cymunedol Maesteg a Gorseinon</a>	27 Medi 2016
2. <a href="#">Tywysoges Cymru</a>	17 Ionawr 2017

### Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol

3. <a href="#">Meddygfa St. Thomas, Stryd yr Ysgol, St. Thomas, Abertawe. SA1 8LH</a>	31 Ionawr 2017
4. <a href="#">Canolfan Iechyd y Brifysgol, Neuadd Penmaen, Parc Singleton, Abertawe. SA2 8PG</a>	14 Chwefror 2017
5. <a href="#">Canolfan Gofal Sylfaenol Pontardawe, Tawe Terrace, Pontardawe, Abertawe. SA8 4JU</a>	28 Chwefror 2017
6. <a href="#">Meddygfa Cwm Nedd, 102 High Street, Glyn-nedd, Castell-nedd. SA11 5AL</a>	27 Mawrth 2017

### Arolygiadau Deintyddol

7. <a href="#">Nicola Hall Ltd, Practis Deintyddol Compton House, 20 Penprysg Road, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr. CF35 7SS</a>	5 Gorffennaf 2016
8. <a href="#">Deintyddfa Broadlands, Uned 1, Gentle Way, Tir Llydan, Pen-y-bont ar Ogwr. CF31 5EJ</a>	20 Hydref 2016
9. <a href="#">Deintyddfa Bro Ogwr, 14 Commercial Street, Bro Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr, Cwm Ogwr. CF32 7BL</a>	23 Tachwedd 2016
10. <a href="#">Clinig Deintyddol Stryd Talbot, 24 Stryd Talbot, Maesteg. CF34 9BW</a>	26 Ionawr 2017
11. <a href="#">Deintyddfa Pontycymmer, 97 Oxford Street, Pontycymmer, Pen-y-bont ar Ogwr, Cwm Garw. CF32 8DE</a>	31 Ionawr 2017
12. <a href="#">Deintyddfa Stryd y Capel, 15 Stryd y Capel, Y Mwmbwls, Abertawe. SA3 4NH</a>	9 Chwefror 2017
13. <a href="#">Deintyddfa Promenade, 600 Heol y Mwmbwls, Y Mwmbwls. SA3 4DL</a>	28 Chwefror 2017
14. <a href="#">Canolfan Ddeintyddol Belgrave, 91 Heol Walter, Abertawe. SA1 4QF &lt;http://hiw.org.uk/find-service/service-index/belgravedentalcentre4?lang=en&gt;</a>	9 Mawrth 2017
15. <a href="#">Practis Deintyddol St James, 71 Heol Walter, Abertawe. SA1 4QA</a>	13 Mawrth 2017



## Arolygiadau Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

16. <a href="#">Ysbyty Singleton</a>	4 Awst 2016
--------------------------------------	-------------

## Arolygiadau Anabledd Dysgu

17. <a href="#">Gwasanaethau preswyl a reolir gan ABM</a>	25 Mai 2016
18. <a href="#">Gwasanaethau preswyl a reolir gan ABM</a>	25 Mai 2016
19. <a href="#">Gwasanaethau preswyl a reolir gan ABM</a>	2 Mehefin 2016
20. <a href="#">Gwasanaethau preswyl a reolir gan ABM</a>	8 Mehefin 2016
21. <a href="#">Gwasanaethau preswyl a reolir gan ABM</a>	9 Mehefin 2016
22. <a href="#">Gwasanaethau preswyl a reolir gan ABM</a>	14 Mehefin 2016
23. <a href="#">Gwasanaethau preswyl a reolir gan ABM</a>	27 Mehefin 2016
24. <a href="#">Tŷ Rowan, Trelái, Caerdydd</a>	27 Mehefin 2016
25. <a href="#">Hafod Y Wennol, Hensol, ger Pont-y-clun</a>	28 Mehefin 2016
26. <a href="#">Gwasanaethau preswyl a reolir gan ABM</a>	5 Gorffennaf 2016
27. <a href="#">Gwasanaethau preswyl a reolir gan ABM</a>	7 Gorffennaf 2016
28. <a href="#">Uned Asesiad a Thriniaeth Llwyneryr</a>	18 Gorffennaf 2016

## Arolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

29. <a href="#">Ysbyty Cefn Coed</a>	10 Mai 2016
--------------------------------------	-------------

## Arolygiadau Unedau Iechyd Meddwl

30. <a href="#">Ysbyty Cefn Coed</a> (Arolwg dilynol)	10 Mai 2016
---	-------------

## Ymchwiliadau – Marwolaeth yn y Ddalfa

31. <a href="#">CEM Abertawe</a>	Ebrill 2016
32. <a href="#">CEM Parc</a>	Mai 2016
33. <a href="#">CEM Parc</a>	Awst 2016
34. <a href="#">CEM Parc</a>	Awst 2016
35. <a href="#">CEM Abertawe</a>	Medi 2016
36. <a href="#">CEM Abertawe</a>	Hydref 2016
37. <a href="#">CEM Parc</a>	Hydref 2016
38. <a href="#">CEM Parc</a>	Hydref 2016
39. <a href="#">CEM Parc</a>	Chwefror 2017